# Helô!

I ddathlu Gŵyl Archaeoleg 2026, mae'r Clwb Archaeolegwyr Ifanc wedi creu adnoddau newydd i archwilio'r thema hon:

## Archaeoleg a Natur

Mae archaeoleg a natur yn gydgysylltiedig gan ddatgelu sut mae bodau dynol wedi byw gyda'r amgylchedd o'u cwmpas, wedi'i siapio, a chael eu siapio ganddo. Drwy archwilio'r gorffennol gan ddefnyddio'r hinsawdd, daeareg, anifeiliaid, planhigion, tirweddau ac effaith natur ar safleoedd ac adeiladau archaeolegol heddiw, gallwn ddeall sut mae lleoedd a chymunedau'n esblygu ac yn datblygu.

clwb archaeolegwyr ifanc

# Tirweddau Cysegredig ac Offrymau Defodol

**Amser Gofynnol: 30-40 o funudau | Ystod oedran: 10+**

## Cefndir:

**Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn dysgu am archaeoleg tirweddau cysegredig ac yn dod o hyd i enghreifftiau ledled y byd.**

Ers y cychwyn cyntaf, mae pobl wedi cael eu tynnu at nodweddion pwysig yn y byd naturiol o'u cwmpas. Roedd ogofeydd, mynyddoedd ac afonydd i gyd oll yn cael eu hystyried yn fannau syfrdanol y gallai bodau dynol gwrdd â'r duwiau a oedd wedi creu'r byd o'u cwmpas ynddynt. Dyma'r lleoedd y gwnaeth bodau dynol ddofi'r byd naturiol i greu noddfeydd ar gopaon mynyddoedd a dychmygu'r isfyd mewn ogofeydd. Er mwyn egluro digwyddiadau naturiol fel llifogydd, gwawrio/machlud a'r tymhorau, cafodd agweddau ar natur eu personoli fel duwiau a chafodd mytholeg ei chysylltu iddynt i egluro eu tarddiad. Daw hyn i'r amlwg ar draws amryw o wahanol bobl.

Mewn archaeoleg, mae astudiaethau o dirweddau cysegredig yn olrhain yr hyn a adawodd bodau dynol ar ôl i ail-lunio profiadau crefyddol y gorffennol. Mewn termau ffisegol, mae hyn yn golygu edrych ar weddillion temlau neu gysegrfeydd i ddeall sut roedd pobl y gorffennol yn rhyngweithio â'r byd naturiol. Mae hyn hefyd yn cynnwys deall y ffordd y dyluniodd bodau dynol y profiad cysegredig mewn lleoliadau arwyddocaol o fewn y dirwedd. Daw rhai o'r enghreifftiau mwyaf eiconig o hyn o derasau coffa yn Mesopotamia hynafol a themlau a adeiladwyd ar gopaon mynyddoedd yng Nglwad Groeg.



**Teml Apollo yn Nelffi, 4ydd ganrif CC. Mewn lleoliad uchel ar Fynydd Parnassus mewn tirwedd drawiadol yn edrych dros gwm Phocis, dyma oedd safle oracl enwog Apollo. Yn nodedig, roedd Apollo hefyd yn gysylltiedig â'r haul, yn ogystal â cherddoriaeth, barddoniaeth, iacháu a phroffwydoliaeth.**

**Ffynhonnell y llun: Wikimedia Commons | Skyring**



**Diya Indiaidd (lamp) yn arnofio ar ddŵr. Mae llawer o offrymau diya yn digwydd o risiau Varanasi, sef cyfres o risiau cerrrig ar lannau gorllewinol afon Ganga, gyda'r nos. Dyma enghraifft dda o sut y gall offrymau fod yn gysylltiedig â natur hyd heddiw.**

Yn aml, mae gan y safleoedd hyn sawl fersiwn yn yr un lle, sy'n cyfleu pa mor hir oedd y lleoliad naturiol syfrdanol yn cael ei ystyried yn un cysegredig. Daeth adeiladweithiau yn y dirwedd yn bethau i ganolbwyntio arnynt wrth addoli, gan gynnwys offrwm gwrthrychau defodol, a man i gymunedau gynnull at ei gilydd a gofyn i'r duwiau eu hamddiffyn rhag mympwyon natur. Hyd yn oed heddiw, mae gwaddol yr arfer hwn yn parhau lle y mae crefyddau modern yn canolbwyntio rhywfaint o addoli ar leoliadau naturiol.

**Oeddech chi'n gwybod?**
Mae archaeolegwyr yn defnyddio ystod o ddulliau gwyddonol i adnabod olion strwythurau yn y dirwedd, hyd yn oed os nad oes unrhyw beth ar ôl ar yr arwyneb! Drwy ddefnyddio cyfuniad o awyrluniau i nodi olion cnydau neu olion crasu, a chyfarpar arolygu fel radar treiddio daear (GPR) a LiDAR, gall archaeolegwyr ddod o hyd i weddillion trefi, caerau a strwythurau ffermio islaw'r ddaear!



**Olion cnydau a oedd i'w gweld yn ystod yr haf a oedd yn dangos olion o domenni claddu crwn, cynhanes a strwythurau eraill o fewn necropolis hynafol yn Ffrainc. Allwch chi ddod o hyd i'r drysau?**
Cydnabyddiaeth llun: WikimediaCommons clichéJ. Dassié

## Cyflwyniad:



**Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn defnyddio deunyddiau naturiol o'ch tirwedd amgylchynol i greu tocin i'w 'roi' yn ôl i'r tir.**

Mae bodau dynol bob amser wedi anrhydeddu'r duwiau a oedd yn goruchwylio'r natur o'u cwmpas drwy greu offrymau i ddiolch i dduwiau natur am ffrwythlondeb a ffyniant neu i'w dyhuddo os ydynt wedi'u gwallgofi. Yn y gorffennol, roedd digwyddiadau naturiol fel stormydd mellt a tharanau a llifogydd yn cael eu dehongli mewn llawer o ddiwylliannau fel gwallogfrwydd duwiau lleol. Heb dechnoleg fodern, roedd bodau dynol mewn perygl llawer yn fwy o achosion o dywydd eithafol. Mae'r enghreifftiau isod yn adlewyrchu'r ffyrdd roedd bodau dynol ledled y byd yn rhyngweithio â'u tirwedd leol mewn ymdrech i ddeall a rhesymoli'r byd o'u cwmpas.

## Astudiaeth Achos Un:

Yn y byd hynafol, roedd afonydd yn aml yn gysylltiedig ag amddiffyn plant fel canlyniad naturiol o'u dŵr rhoi bywyd. Roedd diolch yn cael ei roi i afonydd mewn seremonïau cyrraedd oed am amddiffyn plentyn hyd at iddo ddod yn oedolyn, neu'n cael offrymau i ofyn am blant neu gnydau llwyddiannus. Mae dwyfoli afonydd, yn enwedig, yn ffenomen sy'n ymddangos ar draws y byd hysbys, ac yn rhywbeth sy'n cysylltu dynoliaeth â'i gilydd. Roedd afonydd yn cael eu dychmygu fel creaduriaid hanner tarw hanner dyn yn aml a oedd yn cynrychioli eu pŵer a'u natur gyfriniol.



**Herakles yn ymladd gyda'r afon Acheloos. Mae'r afon yng ngorllewin Gwlad Groeg, 220km o hid, ac roeddyn un o'rafonydd mwyaf pwerus a mordwyadwy yn yr hen fyd. Ffigur coch Attic colofn-krater, c. 450 CC.**

## Astudiaeth Achos Dau:

Roedd y dduwies Roegaidd, Persephone, yn cael ei haddoli mewn ogofeydd penodol ledled Gwlad Groeg. Mewn mytholeg, roedd Persephone yn byw gyda Hades yn yr Isfyd am hanner y flwyddyn ac roedd yn cael dychwelyd adref i weld ei mam, y dduwies Demeter, am hanner arall y flwyddyn. Yn ei llawenydd, yn ôl pob sôn roedd Demeter yn egino blodau ar draws y byd ac yn aeddfedu cnydau. Roedd y fytholeg hon yn egluro'r newidiadau i'r tymhorau yn flynyddol. Yn Eleusis, roedd menywod yn dod â thocins o'u haddoli i'r ogof a oedd yn ôl pob sôn yn fynediad i'r isfyd, yn enwedig pomgranadau, i ofyn i Persephone am ffrwythlondeb. Hyd heddiw, gall pobl sy'n ymweld â'r safle ddod o hyd i flodau a ffrwythau bychain sydd wedi'u cysegru yn ogof y dduwies.



**Pomgranad Terracotta , wedi ei baentio'n goch yn wreiddiol. 7fed-6ed canrif CC.**
Cydnabyddiaeth llun: Staatliche Museen zu Berlin



**Adfeilion InkaPilkoKaina, ar Isla del Sol, Llyn Titicaca, Bolivia.**
Cydnabyddiaeth llun: Wikimedia Commons | Steve Bennett

## Astudiaeth Achos Tri:

Roedd ymerodraeth yr Incas yn ne America yn addoli system gymhleth o dduwiau natur. Roedd mynyddoedd (wak'as) hefyd yn gysegredig i'r Incas, gydag Apu (ysbryd mynydd, sy'n golygu 'arglwydd pwysig') o'r mynyddoedd pwysicaf yn cael ebyrth. Roedd Llyn Titicaca, sef un o'r llynoedd uchaf yn y byd, yn safle hynod gysegredig i'r Inca, ac yn ôl pob sôn yn fan geni'r Duw Haul (Inti) ac roedd y platfformau defodol o amgylch y llyn wedi'u dylunio i gyd-fynd â machlud yr heuldro. Yn y llyn y mae riff tanddwr, sef riff Khoa, lle'r oedd blychau cerrig yn cynnwys ffigyrynnau bychain aur, arian ac efydd a chregyn prin yn cael eu soddi fel offrymau defodol. Roedd y rhain yn eitemau gwerth uchel a oedd yn cael eu rhoi fel anrhegion i'r duwiau, ac yn un o'r mathau o offrymau y'u hystyriwyd yn hanfodol i ddyhuddo'r duwiau natur, dylanwadu ar y tywydd a sicrhau cnydau da.



**Amrywiaeth o offrymau defodol yr Incas. Mae gwrthrychau fel y rhain wedi'u canfod wedi'u cysegru ar gopaon mynyddoedd, yr arfordir a nodweddion naturiol arwyddocaol eraill o fewn ffiniau ymerodraeth yr Incas. Roedd y rhain yn rhan o'r seremoni capac hucha ("rhwymedigaeth frenhinol") yn Quechua, a oedd yn nodi digwyddiadau naturiol fel sychder neu bontio rhwng rheolwyr yr Inca.**
Cydnabyddiaeth llun: Metropolitan Museum of Art

### Oeddech chi'n gwybod?

Mae archaeoleg tanddwr yn ddull gwerthfawr arall sy'n galluogi plymwyr i archwilio safleoedd archaeolegol sydd wedi soddi, gorlifo, neu ddisgyn i'r môr drwy erydiad arfordirol. Caiff llawer o ganfyddiadau pwysig fel llongddrylliadau eu darganfod yn y ffordd hon!

# Gweithgaredd: Creu eich offrwm defodol eich hun

**Sut mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos y thema o dirwedd gysegredig? Ble mae natur yn chwarae rhan mewn addoli?**


Yn anffodus, nid yw llawer o'r offrymau wedi goroesi yn y cofnod archaeolegol, gan eu bod yn aml yn ddeunyddiau dros dro, byrhoedlog gan gynnwys bwyd. Fodd bynnag, rydym yn gwybod am demlau a gwyliau a gafodd eu defnyddio i addoli agweddau ar natur, mae tystiolaeth dda o offrymau defodol mewn testunau a chelf hynafol, ac mae olion yr arfer hwn yn aml yn parhau mewn traddodiadau modern neu lên gwerin.

## Gwybodaeth:

Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn creu eich offrwm defodol eich hun wedi'i ysbrydoli gan yr wybodaeth uchod, yn defnyddio deunyddiau naturiol wedi'u casglu o'r ardal leol.

## Byddwch angen:

- Brigyn/coedyn o siâp diddorol fel eich sail
- Amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol, bioddiraddadwy fel; plu, cerrig bach, blodau (wedi'u casglu o'r ardal leol yn ddelfrydol)
- Detholiad o blu, gleiniau pren neu eitemau crefft eraill dros ben, o ddeunydiau naturiol
- Cortyn o ffibrau naturiol (jiwt, cotwm, cywarch, llin)
- Glud
- Siswrn



### Cyngor Gwych!

Gwnewch yn siŵr bod yr holl eitemau rydych chi'n eu defnyddio yn fioddiraddadwy ac wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol. Mae hyn yn helpu i ddiogelu natur ar gyfer y dyfodol ac yn amddiffyn bywyd gwyllt rhag niwed.

Os ydych chi'n chwilota am eich deunyddiau, peidiwch â dewis gormod. Gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n cymryd gormod o unrhyw beth, a gadewchddigon ar ôl i bawb arall ei fwynhau.








# Dull:



**1.** Dewch o hyd i'ch deunyddiau naturiol o barc neu ardd gerllaw. Byddwch â meddwl agored a chael eich ysbrydoli gan unrhyw beth sy'n ennyn eich diddordeb. Oes ganddo siâp anarferol? A yw'r lliw yn arbennig o fywiog?



**2.** Cymerwch eich brigyn dewisol a thacluswch unrhyw flagur, dail neu ganghennau ychwanegol gyda'ch siswrn. Rydych chi eisiau ei siâp sylfaenol, gan adael digon o le i atodi'ch addurniadau.

**3.** Torrwch gortyn i glymu eich addurniadau ar y brigyn, neu fe allwch ddefnyddio glud i'w wneud yn fwy cadarn

**4.** Edmygwch eich offrwm a wnaed â llaw, wedi'i ysbrydoli gan eich tirwedd leol!



## Gweithgaredd: 'Cysegru' Eich Offrwm

**Gwybodaeth:**

Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn cymryd rhan mewn ffenomen sydd wedi bod yn digwydd ers miloedd o flynyddoedd drwy gysegru rhywbeth i natur.



# Dull:

**1.** Dewiswch lecyn ym myd natur sy'n teimlo'n arbennig i chi, yn rhywle sy'n dal atgofion da neu rydych chi'n meddwl sy'n hardd.

**2.** Dewch â'ch offrwm defodol o'r gweithgaredd blaenorol gyda chi ac ewch ag oedolyn dibynadwy gyda chi.

**3.** Rhowch eich offrwm rhywle o'r golwg, er enghraifft o dan wely o ddail, wrth berth neu rhwng gwreiddiau coeden.

**4.** Wrth i chi wneud eich 'offrwm defodol', cymerwch eiliad i gau eich llygaid a gwerthfawrogi'r byd natur o'ch cwmpas. **Beth ydych chi'n ei glywed? Beth ydych chi'n ei arogli?**
Cymerwch eiliad i anadlu gyda'r byd natur o'ch cwmpas ac ystyriwch sut y gall pobl y gorffennol fod wedi ei weld, a sut y mae'r byd naturiol yn gymharol ddigyfnewid.



**Opsiwn Dau**

**1.** Casglwch feiros a phensiliau, neu ba bynnag gyfrwng o'ch dewis. Gosodwch weithfan glir a gorchuddiwch unrhyw arwynebau.


**2.** Defnyddiwch y wybodaeth gefndirol fel ysbrydoliaeth ar gyfer math y lleoliad naturiol a fyddai'n fwyaf addas ar gyfer eich offrwm defodol o'r gweithgaredd blaenorol. **Pa fath o gysegrfa fyddai'n gweddu i gysegriad i dduw mynydd? Duw haul? Duw afon? Ac, yn bwysicach, i bwy mae eich offrwm defodol?**

**3.** Dechreuwch lunio eich cysegrfa

**Pan fyddwch yn 'cysegru' eich tocin, dychmygwch eich hun yn cymryd rhan yn y traddodiad dynol hirsefydlog hwn o ddiolch i fyd natur am ei rym rhoi bywyd a phopeth y mae'n ei wneud i'n cynnal.**



Mae Pongal yn ŵyl cynaeafu pedwar diwrnod yn ne India. Mae'n diolch i'r Duw Haul a grymoedd natur am gnwd da o reis



Mae Loy Krathong, neu Ŵyl y Goleuni Gwlad Thai, yn ddathliad blynyddol sy'n anrhydeddu'r Dduwies Dŵr Phra Mae Khongkha

# Geirfa:

**Olion Cnydau**– Amrywiadau mewn lliw, uchder neu amser aeddfedu cnydau oherwydd nodweddion archaeolegol sydd wedi'u claddu'n ddwfn islaw'r ddaear, maent i'w gweld orau o'r awyr.

**Dwyfoli** – Y weithred o wneud rhywun neu rywbeth – fel bod dynol, anifail neu gysyniad – yn dduw, dyrchafu'r gwrthrych i statws dwyfol.

**Darfodus** – Rhywbeth sy'n debygol o bydru, difetha neu ddadfeilio dros amser.

**Personoli** – Pan gaiff gwrthrych anfyw neu syniad haniaethol ffurf, nodweddion, emosiynau neu ymddygiad dynol i ddod ag ef yn fyw. Yn y byd hynafol, roedd hyn yn digwydd yn aml i greu duw perthnasol o rywbeth and oedd ganddo ffurf hawdd ei deall, fel taranau, afonydd, a gwyntoedd. Roedd hyn yn rhoi delwedd i fodau dynol gyfeirio eu haddoli ato.

**Ffenomen** – Digwyddiadau, ymddygiadau, neu dueddiadau eang. Wrth gyfeirio at ffenomenau naturiol, mae hyn yn golygu y gall digwyddiadau ym myd natur gael eu harsylwi a bellach eu hegluro gan wyddoniaeth fodern, megis awrora, enfys, diffyg, daeargryn a llanw. Yn y gorffennol, roedd y digwyddiadau hyn weithiau'n achosi syfrdan neu hyd yn oed ofn ac roeddent yn hytrach yn cael eu hegluro gan straeon tarddiad a oedd yn ymwneud â duwiau a bodau pwerus.

**Defod** – Dilyniant ailadroddus, strwythuredig o weithredoedd neu ymddygiadau gydag ystyr symbolaidd sy'n digwydd yn ystod seremoni gydag arwyddocâd crefyddol yn aml.

**Noddfa** – Lle cysegredig neu sanctaidd, yn aml mae'n lle y mae bodau dynol yn llunio'r profiad crefyddol yn ofalus fel y gallant ddod i gysylltiad â'r dwyfol.

**Cysegrfa** – Lle cysegredig neu sanctaidd sy'n cael ei gysegru i dduw penodol neu grŵp o dduwiau perthnasol sy'n gweithredu fel canolbwynt addoli. I dduwiau natur, mae'r cysegrfeydd hyn yn aml mewn mannau naturiol fel ogofeydd.

**Teyrnged** – Gweithred neu offrwm a roddir i gynrychioli canmoliaeth, anrhydedd neu deyrngarwch dwfn a roddir i dduwdod.

## Adnoddau

- **Dysgwch sut y mae olion cnydau yn ffurfio a beth y gallent ei gynrychioli: Ffurfio Olion Cnydau**
- **Dysgwch ragor am Offrymau yr Inca yn Llyn Titicaca: Offrwm Inca Canrifoedd Oed wedi'i ganfod mewn llyn cysegredig**
- **Rhagor am alldaith Archaeolegol Llyn Titicaca: Cyfrinachau Llyn Titicaca: Alldaith archaeolegol yn datgelu treftadaeth cyn-Golumbaidd**
- **Dilynwch Aristonike, Oracl dan hyfforddiant yn Nelffi: diwrnod ym mywyd yr Oracl Delffi – Mark Robinson**